

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Destination Skin Ltd

16 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	8
	Ansawdd rheolaeth a'r arweinyddiaeth	12
6.	Y Camau Nesaf.....	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ymdrechu i sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac i sefydlu sut mae'r gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am ein canfyddiadau ni ar ôl arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau o fewn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, byddwn yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gydag aelodau staff (lle bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, canllaw y cleifion a'r wefan (lle bo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a lenwyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd bob arolygiad, rydym yn darparu golwg gyffredinol o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi yn sgil arolygiad mewn hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd manylion o'r fath, yn ogystal ag unrhyw welliannau eraill angenrheidiol, yn cael eu cynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau'n rhoi ciplun ar ddiwrnod yr arolygiad o'r ffordd y mae'r gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol.

² Fel rhan o broses ddiffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos pan fo diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiannau systematig. Golyga hyn achosion o ganlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac achosion o fethiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses ddiffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Destination Skin Ltd wedi ei chofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei bod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Golau Pwls Dwys (IPL)³ yn House of Fraser, 14-18 Heol Eglwys Fair, Caerdydd. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf yn 2007.

Ar adeg yr arolygiad, roedd tîm y staff yn cynnwys yr unigolyn cyfrifol, rheolwr cofrestredig a thri gweithredwr laser/IPL. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System Golau Pwls Dwys Energist Ultra ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Ieuangu'r croen
- Briwiau fasgwlaidd
- Briwiau pigmentog
- Triniaethau ar gyfer acne.

Dim ond yn unol â'u hamodau cofrestru y caiff gwasanaethau a gofrestrwyd gydag AGIC ddarparu triniaethau. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn y broses o newid ei amodau cofrestru gydag AGIC am fod yno laser Dosbarth 4 arall a oedd yn cael ei ddefnyddio.

³ Mae Golau Pwls Dwys (IPL) yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetaid a therapiwtig.

4. Crynodeb

Canfuwyd rhai meysydd i'w gwella ac achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Nodir mwy o fanylion ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion gael gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gan y gwasanaeth system er mwyn gofyn barn cleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon â'u triniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Gwelsom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Trefniadau i sicrhau diogelwch yr amgylchedd ac offer laser/IPL, gan gynnwys arolygiad o reolau lleol ac ymweliad gan Gyngorydd Diogelwch Laser i'r safle
- Trefniadau i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed
- Trefniadau ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch, gan gynnwys diweddariadau i'r asesiad risg tân
- Diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau
- Systemau ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau a'r safonau.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella o ran trefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Byddai methu â gwneud hynny'n arwain o bosibl at AGIC yn cymryd camau oherwydd diffyg cydymffurfio â rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dyweddodd y staff wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llafar cyn cael triniaeth, a oedd yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r buddiannau. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth, a gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a chanllawiau a roddwyd i gleifion ar ôl eu triniaeth.

Gwelsom fod gofyn i gleifion lenwi ffurflenni hanes meddygol a bod unrhyw ddiweddariadau a newidiadau'n cael eu gwirio ym mhob apwyntiad a'u llofnodi gan gleifion. Nodwyd hyn fel enghraifft o arfer da.

Dyweddwyd wrthym fod cofrestr driniaethau'n cael ei chadw ar system gyfrifiadurol y gwasanaeth; gwelsom enghraifft o hyn, a oedd yn dangos bod y wybodaeth briodol yn cael ei chofnodi. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y system hon yn golygu bod modd archwilio cofnodion cleifion. Roedd gwybodaeth am driniaethau hefyd yn cael ei dyblygu i ffeiliau cleifion unigol (copïau caled).

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd dogfen canllawiau i gleifion ar gael, ond roedd angen cyflawni'r diweddariadau canlynol yn unol â'r rheoliadau:

- Manylion ynghylch sut y gall cleifion gael gafael ar adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC (e.e. drwy gynnwys cyfeiriad gwefan AGIC)
- Crynodeb o'r adborth diweddaraf gan gleifion
- Manylion cyswllt AGIC, y rhif ffôn yn benodol
- Mewn perthynas â chrynodeb o'r weithdrefn gwyno, dylid cyfeirio at fanylion cyswllt AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod datganiad o ddiben ar gael, ond roedd angen diweddariadau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys:

- Cymwysterau perthnasol aelodau staff, gan gynnwys hyfforddiant Craidd o Wybodaeth⁴
- Trefniadau ar gyfer hebryngwyr cleifion
- Manylion cyswllt AGIC, y rhif ffôn yn benodol
- Manylion cyswllt ffôn ac e-bost ar gyfer y darparwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.

Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben i AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Yn anffodus, ni ddarparwyd pob rhan o holiadur y cleifion i'r cleifion, felly dim ond ychydig o wybodaeth am farn y cleifion am y gwasanaeth yr oedd modd inni ei chael. Roedd y rhannau o'r holiaduron a lenwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda datganiadau bod y clinig yn lân ac yn daclus a bod yr aelodau staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrandao ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal eu holiaduron eu hunain i gleifion oddeutu dwywaith y flwyddyn a bod y canlyniadau'n cael eu hystyried. Gwelsom sampl o holiaduron wedi eu llenwi a oedd yn dangos bod cleifion yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd. Roedd modd i gleifion hefyd roi adborth yn ddiennw drwy wefan y gwasanaeth a thrwy e-bost. Dywedwyd wrthym fod adborth cleifion yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi gan brif swyddfa'r gwasanaeth a bod y canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r rheolwr cofrestredig, a fyddai'n ystyried unrhyw gamau angenrheidiol. Roedd hyn yn golygu bod gan y gwasanaeth ddull addas o gael adborth gan gleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

⁴ Bwriedir hyfforddiant Craidd o Wybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a Golau Pwls Dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau Golau Pwls Dwys a laserau yn ddiogel.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni fu'n bosibl inni weld tystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig a holl weithredwyr y peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd o Wybodaeth diweddar o fewn y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom fod yr aelodau staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r offer IPL, ond nid oedd modd inni weld tystysgrifau ar gyfer hyfforddiant ar y peiriant laser ar y diwrnod. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob hyfforddiant angenrheidiol wedi ei gwblhau gan y staff, ond eu bod wedi cael problemau'n dod o hyd i'r tystysgrifau. Mae'n bwysig bod cofnodion o hyfforddiant gorfodol yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff. Ar ôl yr arolygiad, anfonwyd tystysgrifau hyfforddiant i AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai cofnodion hyfforddi gael eu cynnal yn briodol a'u hadolygu i sicrhau bod aelodau staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w swyddogaeth.

Buom yn edrych ar y rheolau lleol, sy'n rhoi manylion am sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel, a chanfuom y meysydd canlynol a oedd yn achosi pryder:

- Roedd diweddariadau wedi eu gwneud heb i Gynghorydd Diogelwch Laser ymweld â safle'r gwasanaeth
- Gwelsom fod cywiriadau diweddar wedi eu gwneud i'r rheolau lleol diweddaraf, gan gynnwys math a nifer y peiriannau IPL/laser a ddefnyddir. Er gwaethaf yr wybodaeth hon, roedd y rheolau'n dal i gynnwys gwybodaeth anghywir a chroes, gan gynnwys cyfeiriadau at reoliadau a chyrrff rheoleiddio anghywir
- Gwelsom fod y rheoliadau wedi eu dyddio ymlaen i fis Ebrill 2016, gan olygu nad oedd yn eglur pa bryd y cynhaliwyd yr adolygiad mewn gwirionedd
- Roedd y rheolau lleol yn nodi bod triniaethau'n cael eu darparu i blant, yn groes i amodau cofrestru'r gwasanaeth gydag AGIC.

Yn seiliedig ar yr uchod, ni ellid ein sicrhau bod y rheolau lleol yn rhoi digon o ganllawiau ynglŷn ag arferion gwaith pob peiriant IPL a laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai hyn yn cael sylw ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod rheolau lleol cywir a diweddar ar gyfer pob peiriant IPL a laser er mwyn rhoi digon o fanylion am arferion gwaith i'r aelodau staff eu dilyn.

Trafodwyd trefniadau'r gwasanaeth gyda Chynghorydd Diogelwch Laser. Roedd y gwasanaeth wedi bod mewn cyswllt gyda Chynghorydd Diogelwch Laser o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyn wedi digwydd drwy hunanasesiadau o bell yn hytrach nag ymweliad i safle'r gwasanaeth. Nid oedd yn eglur pa bryd yr oedd ymweliad diweddaraf y Cynghorydd Diogelwch Laser â'r safle. Gwelsom fod archwiliad wedi ei gynnal yn 2015 a dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn credu bod ymweliad i'r safle wedi digwydd, ond ni ellid sefydlu hyn o'r ddogfennaeth. Yn gyffredinol, ni ellid ein sicrhau bod y trefniadau hunanasesu gyda'r Cynghorydd Diogelwch Laser yn ddigonol er mwyn helpu i sicrhau diogelwch yr amgylchedd, yr offer, a chleifion y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid amddiffyn diogelwch a lles cleifion. Yn benodol, rhaid i asesiad o ddiogelwch offer ac amgylchedd y gwasanaeth gael ei gynnal ar y safle gan Gynghorydd Diogelwch Laser.

Rhaid i gopi o'r adroddiad ar ymweliad y Cynghorydd Diogelwch Laser gael ei ddarparu i AGIC.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael ar gyfer y cleifion a gweithredwyr y laser. Roedd yn ymddangos bod y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr da a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu glanhau rhwng ymweliad pob claf a sicheir yn rheolaidd nad ydynt yn cael eu difrodi.

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriant IPL wedi ei wasanaethu'n ddiweddar, er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrifau gwasanaethu ar gael ar gyfer y peiriant laser.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cadw cofnodion gwasanaethu ar gyfer yr holl offer IPL/laser.

Rhaid anfon copïau o'r dystysgrif wasanaethu ddiweddaraf ar gyfer y peiriant laser i AGIC.

Roedd arwydd y gellid ei dynnu y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos pa bryd y mae'r peiriant IPL/laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drysau'r ystafell driniaeth yn cael eu cloi er mwyn rhwystro mynediad heb

awdurdod. Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer storio allweddi cychwyn y peiriannau IPL/laser yn ddiogel.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Gwelsom fod angen diweddarau'r polisi diogelu er mwyn darparu gweithdrefn eglur i aelodau staff y gwasanaeth ei dilyn mewn achos o bryder cysylltiedig â diogelu, gan gynnwys manylion cywir y timau diogelu lleol. Roedd y polisi'n nodi y byddai oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu cynorthwyo yn ystod triniaethau, ond nid oedd unrhyw wybodaeth am y trefniadau ar gyfer asesu gallu meddyliol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed wedi ei gyflawni gan aelodau staff yn ddiweddar, ond nid oedd y tystysgrifau ar gael i ni gael eu gweld ar y diwrnod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid sefydlu prosesau cadarn er mwyn sicrhau lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed a allai fod yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys adolygu polisiâu a gweithdrefnau a sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn achos o bryder cysylltiedig â diogelu.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ond gwelsom fod angen ei ddiweddarau i gynnwys mwy o fanylion am y trefniadau ar gyfer glanhau'r gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau gyda mwy o fanylion am y trefniadau ar gyfer glanhau.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gan fod y gwasanaeth wedi ei leoli yn House of Fraser, dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb House of Fraser oedd y gwaith cynnal a chadw, ond nid oedd gan y gwasanaeth fanylion am y trefniadau hyn. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd inni weld tystiolaeth o'r trefniadau cynnal a chadw a oedd yn effeithio ar aelodau staff a chleifion y gwasanaeth, gan gynnwys gwiriadau weirio, yswiriant, a gwasanaethu'r lifftiau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob cam a rhagofal priodol ar waith er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion ac aelodau staff yn y gwasanaeth hwn. Yn benodol, dylai'r rheolwr cofrestredig ofyn am eglurhad a dogfennaeth ar bob trefniant cynnal a chadw ar gyfer y manau a ddefnyddir gan y gwasanaeth.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi eu cynnal yn ddiweddar, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bychan yn ddiogel i'w defnyddio.

Buom yn edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn, ac arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd asesiad o risg tân wedi ei gynnal gan y gwasanaeth; fodd bynnag, sylwyd nad oedd hwn yn ddigon manwl o ran y camau rheoli a oedd ar waith i helpu i leihau'r perygl o dân. Roeddem yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Tân De Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth adolygu priodoldeb yr asesiad o risg tân.

Ansawdd rheolaeth a'r arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Caiff Destination Skin Ltd ei redeg gan y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol. Mae gan y cwmni nifer o safleoedd wedi eu lleoli ar draws y DU.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd nifer o ddogfennau nad oeddent ar gael inni gael eu gweld. Darparwyd rhestr o ddogfennau i'r gwasanaeth oddeutu pedair wythnos cyn yr arolygiad. Roedd yn siomedig felly nad oedd y gwasanaeth wedi bod yn ddigon blaenweithgar er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym fod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu llunio a'u diweddarau'n ganolog ym mhrif swyddfa'r gwasanaeth. Buom yn edrych ar sampl fechan o bolisïau a gweld bod arnynt ddyddiadau a oedd yn dangos eu bod wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf. Gan fod gan y cwmni nifer o safleoedd, gwelsom nad oedd y ddogfennaeth yn cynnwys y cyfeiriadau cywir at reoliadau, safonau a sefydliadau yng Nghymru bob amser. Gwelsom hefyd fod angen i'r polisïau gael eu teilwra i gael eu defnyddio gan y gwasanaeth, megis y polisi rheoli heintiau. Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i bob polisi a gweithdrefn gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol a'r safonau sy'n berthnasol yng Nghymru a rhaid iddynt gael eu teilwra'n briodol ar gyfer defnydd y gwasanaeth.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Roedd polisi cwynion ar gael a oedd yn nodi'r weithdrefn y dylai'r aelodau staff ei dilyn pan dderbynnir cwyn. Yn unol â'r rheoliadau, dylai copi ysgrifenedig o'r weithdrefn fod ar gael i'r cleifion ar gais. Er bod gwybodaeth am y weithdrefn gwynion wedi ei chynnwys yn y datganiad o ddiben, roedd angen i'r wybodaeth gynnwys mwy o fanylion i nodi lle gallai'r cleifion anfon eu pryderon. Roeddem yn cynghori y dylai'r gwasanaeth wneud trefniadau ar gyfer hyn.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cwynion anffurfiol, cwynion a dderbynnir ar lafar, a chwynion ysgrifenedig yn cael eu cofnodi'n electronig ac y byddai themâu cyffredin yn cael eu dwyn i sylw'r rheolwr cofrestredig. Cawsom ein sicrhau y byddai'r materion a ganfuwyd yn cael sylw ar unwaith.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Dywedodd aelodau staff wrthym fod cofnodion electronig yn cael eu diogelu gyda chyfrineiriau a bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cypyrddau'n cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd modd inni wneud yn siŵr bod gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser/IPL dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu dyddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf yn unol â'r rheoliadau, am nad oedd y dogfennau hyn ar gael. Ar ôl yr arolygiad, anfonwyd tystysgrifau i AGIC yn cadarnhau bod yr aelodau staff wedi cael gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dangoswyd enghraifft o'r rhaglen sefydlu a oedd ar waith ar gyfer aelodau staff newydd inni a dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau staff y wybodaeth a'r sgiliau iawn i gyflawni eu swyddogaeth a bod unrhyw anghenion hyfforddiant yn cael eu hadnabod.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a safonau perthnasol. Roedd yn amlwg hefyd bod angen i'r rheolwr cofrestredig wella'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r gofynion hyn.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb yn brydlon i ddatrys materion sy'n peri pryder, yn nodweddion pwysig o allu rheolwr cofrestredig i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a sgiliau digonol. Mae disgwyl, felly, i'r darparwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau ar gyfer methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau bod cydymffurfiad â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A i'r arolygiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Destination Skin yn cael sylw, gan gynnwys yr amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Destination Skin Ltd

Dyddiad yr arolygiad:

16 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
7	Rhaid diweddarau canllaw'r cleifion yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 7	Mae canllaw'r cleifion wedi ei adolygu a'i ddiweddarau'n gywir. Mae'n fwy clir ac yn haws ei ddeall i'r claf.	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol	Cwblhawyd
8	Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau. Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau i AGIC.	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1	Mae'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau a gwnaed addasiadau yn unol â'r rheoliadau, ac mae'n fwy eglur i'r claf.	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
9	Dylid cynnal cofnodion hyfforddiant yn briodol a'u hadolygu i sicrhau bod aelodau staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w swydd.	Rheoliad 20 a 45; Safon 25	Mae pob hyfforddiant wedi ei gyflawni ac yn gyfredol i bob aelod o staff. Darparwyd pob tystysgrif hyfforddiant gan y cyflenwyr ac maent ar gael i AGIC gael eu gweld neu i'r cleientiaid ar gais. Rhoddyd adolygiadau rheolaidd ar waith i sicrhau bod cofnodion hyfforddiant yn cael eu monitro'n agos a'u cynnal.	Rheolwr Cofrestredig ac LPS	Cwblhawyd
10	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod rheolau lleol cywir a chyfredol ar gyfer pob laser a pheiriant IPL fel bod digon o fanylion am yr arferion gwaith i'r aelodau staff eu dilyn.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 (1) a (2) Safon 16	Trefnwyd ymweliad gyda'n Cynghorydd Diogelwch Laser i archwilio'r clinig. Bydd y Cynghorydd Diogelwch Laser yn paratoi rheolau cyfredol a chywir ar ôl cynnal ei ymweliad â'r safle. Mae ymweliadau blynyddol wedi eu trefnu.	Rheolwr Cofrestredig ac LPS	2 fis
10	Rhaid amddiffyn diogelwch a lles cleifion. Yn benodol, rhaid cynnal asesiad o offer ac amgylchedd y gwasanaeth ar y safle gan Gynghorydd Diogelwch Laser.	Rheoliad 15 (1), (2) a 19(1)(2) Safon 16	Cynhaliwyd ein harchwiliad diwethaf ym Mawrth 2015 ac fe'i nodir yn ein ffolder LPS. Mae ymweliad wedi ei drefnu gyda'n Cynghorydd Diogelwch Laser i gynnal archwiliad	Rheolwr Cofrestredig, LPS a'r Unigolyn Cyfrifol	2 fis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rhaid darparu copi o adroddiad ymweliad y Cynghorydd Diogelwch Laser i AGIC.		o'r clinig. Bydd y Cynghorydd Diogelwch Laser yn paratoi adroddiad archwilio ar ôl cynnal ei ymweliad â'r safle.		
10	Rhaid cadw cofnodion gwasanaethu ar gyfer yr holl offer laser/IPL. Rhaid anfon copïau o'r dystysgrif gwasanaethu ddiweddaraf ar gyfer y peiriant laser i AGIC.	Rheoliad 15 (1) a (2)	Cedwir pob cofnod am waith cynnal a chadw, gwasanaethu a gosod y laser yn ein ffolder LPS ac maent wedi eu cyflwyno i AGIC.	Y Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd
11	Rhaid sefydlu prosesau cadarn er mwyn sicrhau lles a diogelwch oedolion sy'n agored i niwed a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau a sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn mewn achos cysylltiedig â diogelu.	Rheoliad 16 Safon 11	Bydd pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Lefel 1 wrth ymuno â'r busnes, er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adnabod, cofnodi a rheoli unrhyw achosion o bryder cysylltiedig â diogelu. Bydd hefyd yn eu dysgu am eu cyfrifoldebau cysylltiedig â darparu gwasanaethau a gofal i unrhyw oedolyn sy'n agored i niwed. Mae ein polisïau a'n protocolau wedi eu diweddarau i fod yn fwy cynhwysfawr a rhoi gwell canllaw i'n haelodau staff ac maent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	Rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau gyda mwy o fanylion am y trefniadau glanhau.	Rheoliad 9 (n)	Mae'r broses rheoli heintiau drylwyr sydd gennym ar waith wedi ei diweddarau yn fwy eglur yn y polisi er mwyn rhoi amlinelliad mwy eglur o'r trefniadau sydd ar waith ac sy'n cael eu gweithredu'n ddyddiol.	Y Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd
12	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob mesur a rhagofal priodol ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch cleifion a staff y gwasanaeth hwn. Yn benodol, dylai'r rheolwr cofrestredig gael eglurder a dogfennaeth ar holl drefniadau'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer y mannau a ddefnyddir gan y gwasanaeth.	Rheoliad 15 (1), (2) a 19(1); Safon 22	Rydym wedi ymfyn am gofnodion gwaith cynnal a chadw'r rhannau o House of Fraser lle gallai ein cleifion a'n staff fod mewn perygl a byddant yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u cadw yn y clinig. Bydd yr arolygiadau iechyd a diogelwch, yr asesiadau risg a'r archwiliadau a gynhelir ar hyn o bryd yn fisol ac yn flynyddol yn dal i gael eu cynnal a chedwir cofnod ohonynt yn y dyddiadur bob amser.	Y Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd
12	Dylai'r gwasanaeth adolygu priodoldeb yr asesiad risg tân.	Rheoliad 15 (1), (2), 19(1) a	Mae pob aelod o'r tîm wedi cael hyfforddiant iechyd a diogelwch a thân i leihau'r risgiau. Mae'r asesiad	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn	1 mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		26(5)(b) Safon 22	risg tân yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysfawr.	Cyfrifol	
Ansawdd rheolaeth a'r arweinyddiaeth					
13	Rhaid i bob polisi a gweithdrefn gydymffurfio gyda gofynion rheoleiddiol a safonau sy'n gymwys yng Nghymru ac mae'n rhaid eu teilwra'n briodol i'w defnyddio yn y gwasanaeth.	Rheoliad 9	Mae pob polisi a gweithdrefn bellach wedi eu hadolygu ac yn berthnasol i'n clinig ni yng Nghymru yn benodol. Byddwn yn adolygu ein polisïau a'n protocolau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal i'r safon ofynnol.	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol	Cwblhawyd
14	Rhaid sefydlu systemau rheoli a sicrwydd ansawdd effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau, fel dull o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19 Safon 1	Mae pob pwynt a godwyd ar ôl yr arolygiad wedi ei weithredu ar unwaith ac fe fyddant yn cael eu cynnal a'u rheoli gyda gwell gwybodaeth erbyn hyn. Mae'r clinig yn fwy trefnus erbyn hyn ac mae gan y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol well dealltwriaeth a dealltwriaeth fwy eglur o'r gofynion disgwylidig ac maent yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol cysylltiedig â darparu triniaethau laser yng Nghymru.	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Bydd diogelwch a gofal am ein staff a'n cleifion yn flaenoriaeth i'n gwasanaeth bob amser. Bydd cynlluniau hyfforddi a rheoli'n cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio, gan gyfeirio'n rheolaidd at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r rheoliadau a osodir.		

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Brit Ekelund

Teitl: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 14.4.16